


PROSPECTWS PROSPECTUS

18 / 19

CHWECHED DOSBARTH
SIXTH FORM



CYNNWYS

1. CYFLWYNIAD
- 3 MEYSYDD YN Y CHWECHED DOSBARTH –LEFEL A
CYRSIAU MEDI 2018
- 4 PWYNTIAU UCAS
AIL SEFYLL TGAU
- 5 BAGLORIAETH CYMRU – LEFEL UWCH
- 7 Y GYMRAEG
- 8 ENGLISH LANGUAGE AND LITERATURE
- 9 MATHEMATEG
- 10 BIOLEG
- 11 CEMEG
- 12 FFISEG
- 13 ASTUDIAETHAU CREFYDDOL
- 14 DAEARYDDIAETH
- 15 HANES
- 16 CELF A DYLUNIO
- 17 FFOTOGRAFFIAETH
- 18 DYLUNIO CYNNYRCH
- 19 ADDYSG GORFFOROL
- 20 GWASANAETHAU CYHOEDDUS
- 21 Y CHWECHED DOSBARTH YN GYFFREDINOL
- 22 YMGYNGHORI
- 24 RHEOLAU MANWL
- 25 CALENR O DDIGWYDDIADAU YN Y CHWECHED

CYFLWYNIAD

Mae bod yn aelod o 6ed dosbarth Ysgol Dyffryn Nantlle yn dod â breintiau a chyfrifoldebau. Mae'r ysgol yn ceisio sicrhau ei bod yn cynnig addysg o'r ansawdd gorau posibl i chi yn y 6ed dosbarth, tra hefyd yn disgwyl ymroddiad gennych i dyfu i fod yn bersonoliaethau llawn gan ymarfer eich holl ddoniau er mwyn bod yn aelodau cyfrifol o gymdeithas ddwyieithog ac Ewropeaidd. Mae arwyddair yr ysgol, **'Delfryd Dysg Cymeriad'**, yn ategu hyn.

Bydd cyfle ichi ddatblygu fel arweinyddion trwy ysgwyddo gwahanol gyfrifoldebau, e.e.

- rôl swyddog yr ysgol (sy'n cefnogi gwaith yr athrawon)
- bod yn gapten neu yn ysgrifennydd un o dai'r ysgol
- cefnogi disgyblion iau'r ysgol (e.e. cynllun darllen ar y cyd, cynllun pario disgyblion)

Fel arweinyddion, mae'r ysgol yn disgwyl eich bod yn gosod esiampl i weddill yr ysgol yn eich ymarweddiad cyffredinol.

Mae gwisg ysgol arbennig gan aelodau o'r 6ed dosbarth, a disgwylir i chi ei gwisgo gyda balchder.

Bydd fforwm drafod ar eich cyfer lle gallwch gyfrannu syniadau yn adeiladol, a hynny'n aml er mwyn gwella trefniadaeth yr ysgol.

Ymhen ychydig bydd eich cyrsiau TGAU yn yr ysgol yn dod i ben, a bydd dewis yn eich wynebu. Y dewis fydd, un ai gadael yr ysgol a mynd i Addysg Bellach, neu gael profiad gwaith, neu aros ymlaen yn yr ysgol.

Os ydych yn meddwl aros ymlaen yn yr ysgol mae'r llyfryn hwn yn dweud wrthyich beth yn union sydd ar gael i chi wedi ichi ddod yn eich ôl.

Mae'n dweud wrthyich :

- pa bynciau y gallwch eu hastudio
- beth, yn fras, yw cynnwys y cyrsiau hynny
- beth a ddisgwylir ohonoch chi yn ystod y cwrs
- sut mae'r cyrsiau yn cael eu hasesu
- beth ddylech chi ei gael yn TGAU i ddilyn y cyrsiau (Gweler y pynciau unigol)

Astudiwch yr wybodaeth yn ofalus er mwyn ichi wneud y dewis cywir.

Yr amser i chi wneud eich dewis yw **nawr**. Ni ddylech aros tan y canlyniadau ym mis Awst i weld pa gyrsiau yr ydych yn mynd i'w dilyn, na pha bynciau yr ydych yn mynd i'w hastudio. **Nid y canlyniadau yn unig ddylai benderfynu beth yr ydych yn mynd i'w astudio am y ddwy flynedd nesaf.** Bydd cystadleuaeth am lefydd ar rai o'r cyrsiau sy'n cael eu darparu'n allanol. Golygai hyn y bydd angen gwneud cais a chael cyfweliad ar gyfer y cyrsiau yma.

PENDERFYNWCH AR EICH CWRS AC AR EICH PYNCIAU YN AWR.

Dylech ddewis pynciau ar sail y canlynol:

- eich diddordeb ynddynt
- eich gallu i'w gwneud
- pa bynciau fydd o help ichi, os ydych wedi penderfynu ar eich gyrfa.

Unwaith y byddwch wedi penderfynu ar eich cwrs a'ch pynciau, eich targedau wedyn yw **gwneud yn siŵr eich bod yn cael C neu uwch ynddynt yn arholiadau'r haf**. Gweler y pynciau unigol i weld pa raddau sydd eu hangen mewn TGAU cyn y medrwyh eu hastudio.

Dyna'r targed cyntaf i chi.

Disgwylir i fwyafrif o'r myfyrwyr astudio 3 phwnc UG, neu 2 bwnc UG ac un BTEC Lefel 3. Cyngorir y myfyrwyr unigol ar sail eu canlyniadau TGAU.

Yn ogystal ag astudio pynciau UG/BTEC bydd pob myfyriwr yn astudio'r **Cymhwyster Bagloriaeth Cymru**.

Os ydych yn awyddus i ddod yn ôl i'r Chweched Dosbarth i astudio 3 phwnc Lefel 3, **dylech gael o leiaf 6 pwnc sy'n gyfwerth â C TGAU neu'n uwch yn eich pynciau diwedd Cyfnod Allweddol 4.**

Os ydych yn dymuno gwneud 2 bwnc galwedigaethol lefel 3, dylech **gael o leiaf 5 pwnc sy'n gyfwerth â C TGAU neu'n uwch yn eich pynciau diwedd Cyfnod Allweddol 4.**

**OS YDYCH AM FWY O WYBODAETH AM UNRHYW BWNC EWCH I WELD YR
ATHRAWON SY'N EI DDYSGU, A GOFYN IDDYNT.**

MEYSYDD YN Y CHWECHED DOSBARTH

LEFEL A

Fel arfer mae disgyblion yn dilyn 3 neu, ambell dro, 4 cwrs Lefel A mewn pynciau o'u dewis eu hunain. Cyn belled ag y bo modd, bydd pawb yn cael dilyn y pynciau y mae arnynt eisiau eu dilyn, ond mae rhai cyfuniadau o bynciau na ellir eu dilyn. Mae'r cwrs llawn yn gwrs 2 flynedd. Yn y flwyddyn gyntaf byddwch yn dilyn cyrsiau Uwch Gyfrannol (UG), sef cwrs a fydd yn arwain at gymhwyster allanol ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf. Asesir myfyrwyr yn ystod eu cwrs ac ar ddiwedd y cwrs. Byddwch yn dilyn 3 cwrs UG, yn ddibynnol ar eich canlyniadau TGAU a chyngor yr ysgol. Bydd cyfuniad o UG ac A2 yn rhoi dyfarniad llawn Safon Uwch i chi ar ddiwedd Blwyddyn 13.

Rhaid i chi lwyddo yn eich arholiadau Uwch Gyfrannol cyn cael symud ymlaen i'r ail-flwyddyn (A2). Mae rhai pynciau yn symud i gyrsiau dwy flynedd, lle nad yw'r cwrs uwch gyfrannol yn sefyll ar ben ei hun fel cymhwyster.

Dylid nodi na fydd cwrs yn cael ei redeg gan yr Ysgol na sefydliadau eraill oni bai fod niferoedd digonol o ddisgyblion wedi dewis y pwnc. Gall cyrsiau sy'n cael eu cynnig gan y Consortiwm newid eu darpariaeth i sefydliad arall.

CYRSIAU MEDI 2018

- Addysg Gorfforol (Ysgol Dyffryn Ogwen)
- Astudiaethau Busnes (Coleg Menai, Bangor)
- BAC
- Bioleg
- Celf
- Cemeg
- Cerddoriaeth (Ysgol Tryfan)
- Chwaraeon (BTEC Lefel 3, Ysgol David Hughes)
- Cyfryngau Creadigol – Cynhyrchu Gemau (BTEC Lefel 3 Coleg Menai, Llangefni)
- Cyfryngau Creadigol – Teledu a Ffilm (BTEC Lefel 3 Coleg Menai, Llangefni)
- Cymdeithaseg (Ysgol Tryfan)
- Cymraeg
- Daearyddiaeth
- Drama Cyfrwng Cymraeg (Bodedern)
- Drama Cyfrwng Saesneg (Friars)
- Dylunio a Thechnoleg
- Electroneg (Coleg Menai, Llangefni)
- Ffiseg (Ysgol Tryfan)
- Ffotograffiaeth
- Ffrangeg (Ysgol David Hughes)
- Almaeneg (Ysgol David Hughes)
- Astudiaethau Crefyddol (Ysgol Brynrefail)
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Ysgol Brynrefail)
- Gwasanaethau Cyhoeddus
- Hanes
- Lletygarwch (BTEC Lefel 3 Coleg Menai, Bangor)
- Mathemateg
- Mathemateg Pellach (Friars)
- Peirianeg Fecanyddol (BTEC Lefel 3 Coleg Menai, Bangor)
- Peirianeg Sifil (BTEC Lefel 3 Coleg Menai, Bangor)
- Saesneg
- Seicoleg (Syr Hugh Owen)
- Technoleg Cerdd (BTEC Lefel 3 Coleg Menai, Bangor)
- TGCh (Ysgol Dyffryn Ogwen)
- Y Gyfraith (Ysgol David Hughes)

PWYNTIAU UCAS

Mae pwyntiau UCAS yn cael eu defnyddio wrth geisio am fynediad i gyrsiau mewn Colegau a Phrifysgolion. Mae system pwyntiau newydd eleni ar gyfer UCAS. Gweler safwe UCAS am gyfuniad gwahanol o bynciau.

Dyma'r pwyntiau fydd yn cael eu rhoi gogyfer â gwahanol ddyfarniadau:

Y Fagloriaeth Gymreig	Uwch Gyfrannol 3 uned	Safon Uwch 6 uned	BTEC Lefel 3	Pwyntiau
A*		A*	D*	56
A		A	D	48
B		B		40
C		C	M	32
D		D		24
	A			20
E	B	E	P	16
	C			12
	D			10
	E			6

AIL SEFYLL TGAU

Bydd cyfle i bawb sy'n dod yn ôl i'r Chweched ail-sefyll pynciau TGAU y maent wedi methu ynddynt. Ym mis Tachwedd gellir ail-sefyll **Cymraeg Iaith, Saesneg Iaith, a Mathemateg**.

Ni cheir sefyll yn Nhachwedd oni chafwyd **o leiaf E** yn y pwnc yn yr Haf. Awgrymir y byddai'n well peidio ail-sefyll os na chafwyd D yn y pwnc yn yr Haf. Penderfyniad yr adran berthnasol yw pwy sy'n gymwys i ail-sefyll eu pwnc ym mis Tachwedd, nid penderfyniad y disgybl unigol. **Os yw'r adran yn gwrthod caniatâd i ddisgybl sefyll, yna ni chaiff sefyll onid yw'n barod i dalu am yr arholiad ei hun.**

Dalier Sylw : *Os yw disgybl yn cael gradd D, neu is, am yr ail dro yn yr un pwnc, ni fydd yr ysgol yn talu am iddo ef, neu hi, sefyll y pwnc hwnnw eto. Os yw disgybl am sefyll pwnc am y trydydd tro, neu fwy, bydd raid talu £36.36 y pwnc (pris Tachwedd 2017) am wneud hynny. Ni roddir enw disgybl ymlaen nes y bydd wedi talu'r cyfan o'r tâl hwnnw.*


Yn yr haf gellir ail-sefyll unrhyw bwnc a fethwyd yr haf cynt. Ni chynhelir gwersi ychwanegol ar gyfer y rheiny, ond dylech geisio mynd i rai gwersi blwyddyn 11 yn y pynciau.

Dalier Sylw : *Y mae cyrsiau TGAU yn newid yn aml. Efallai nad yw'r Gwaith Cwrs yr ydych chi wedi ei wneud yn dderbyniol ar gyfer y tro nesaf. Bydd gofyn ichi ddarganfod hynny a gwneud yn siŵr y byddwch yn medru gwneud y Gwaith Cwrs newydd. Os nad yw'n newid dylech wneud ymdrech i wella eich Gwaith Cwrs o'r flwyddyn cynt. Os nad ydych yn gwneud ymdrech i sicrhau hyn mae'n fwy na thebyg na chewch ail-sefyll yr arholiad.*

Weithiau mae'r cwrs ei hun yn newid, ac fe fydd ffurf, neu gynnwys, yr arholiad yn wahanol i'r hyn a wnaethoch y tro cyntaf. Mewn achos felly rhaid ichi wneud yn siŵr y medrwch wneud y gwaith cyn sefyll yr arholiad. Os na fydd ymdrech ar eich rhan, ni chewch ei sefyll.

BAGLORIAETH CYMRU – LEFEL UWCH

Mae Bagloriaeth Cymru ar ei newydd wedd yn seiliedig ar Dystysgrif Her Sgiliau a Chymwysterau Ategol. Prif nod y cymhwyster yw hyrwyddo sgiliau hanfodol ar gyfer cyflogaeth a darparu cyfleoedd ar sail tair Her a Phroject Unigol.



"Mae Bagloriaeth Cymru yn ganolog i ddyfodol addysg yng Nghymru a bydd yn cynnig profiad i ddysgwyr sy'n unigryw a gwerthfawr." - Caroline Morgan, Rheolwr Fframwaith Bagloriaeth Cymru, CBAC

Ffocws canolog Bagloriaeth Cymru ar lefel Uwch yw darparu cyfrwng i ddysgwyr lefel 3 atgyfnerthu a meithrin sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd. Bydd y cymhwyster yn helpu dysgwyr i feithrin sgiliau, priodoleddau ac ymddygiad mwy cymhleth ac yn rhoi'r profiadau y maent eu hangen i'w paratoi'n well at gam nesaf eu bywyd, p'un a ydynt yn penderfynu mynd i'r brifysgol neu i weithio. Mae pwyslais Bagloriaeth Cymru ar ddysgu cymhwysol h.y. caffael a defnyddio amrywiaeth o sgiliau trosglwyddadwy. Bydd dysgwyr yn meithrin sgiliau drwy dasgau pwrpasol; defnyddio gwybodaeth a dealltwriaeth mewn cyd-destunau priodol i ddysgwyr lefel 3. Bydd Bagloriaeth Cymru yn annog y dysgwr i werthfawrogi'r broses o feithrin sgiliau fel agwedd allweddol ar addysg a dysgu gydol oes.

Bydd yn cynnig profiad dysgu sy'n berthnasol i anghenion a gofynion y gweithle yn meithrin hyder, cymhelliant a blaengaredd dysgwyr, gan eu paratoi i ymuno â'r byd gwaith, i lwyddo yn y byd hwnnw ac i ddatblygu ynddo.

Drwy Fagloriaeth Cymru, bydd y dysgwyr yn codi eu lefelau sgiliau a'u hyder, gan eu galluogi a'u grymuso i ymgymryd â'u rôl fel dinasyddion cyfrifol a gweithgar o fewn cymdeithas amrywiol. Ar y cyd â'r broses o feithrin sgiliau a thrwy'r broses honno, mae Bagloriaeth Cymru yn rhoi'r cyfle i'r dysgwyr feithrin eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gymdeithas, y gymuned maent yn byw ynddi ac ymwbyddiaeth o faterion, digwyddiadau a phersbectifau byd-eang.

Mae Bagloriaeth Cymru yn seiliedig ar **Dystysgrif Her Sgiliau** ynghyd â **Chymwysterau Ategol**.

Rhaid bodloni gofynion y Dystysgrif Her Sgiliau a'r Cymwysterau Ategol er mwyn cyflawni Bagloriaeth Cymru yn ei chyfanrwydd.

Mae'r **Dystysgrif Her Sgiliau** yn cynnwys pedair cydran a gaiff eu dilyn gan bob dysgwr:

- Project Unigol
- Her Menter a Chyflogadwyedd
- Her Dinasyddiaeth Fyd-eang
- Her y Gymuned

Mae'r **Cymwysterau Ategol** yn cynnwys dau gymhwyster TGAU gorfodol mewn Saesneg Iaith neu Gymraeg Iaith ynghyd â Mathemateg – Rhifedd ar raddau A* - C. Yn ystod y cwrs rhaid i ddysgwyr ennill dwy Safon Uwch ar raddau A* - E neu gymwysterau lefel 3.

Bydd ffocws y **Dystysgrif Her Sgiliau** ar y **sgiliau hanfodol a'r sgiliau cyflogadwyedd** sydd eu hangen ar bobl ifanc yn eu bywydau yn y dyfodol a chaiff y sgiliau hyn eu **meithrin a'u hasesu** drwy Project Unigol a thair Her.

Mae'r saith sgil hanfodol a chyflogadwyedd fel a ganlyn:

- Llythrennedd
- Rhifedd
- Llythrennedd Digidol
- Meddwl yn Feirniadol a Datrys Problemau
- Cynllunio a Threfnu
- Creadigedd ac Arloesi
- Effeithiolrwydd Personol

Cynlluniwyd y **Dystysgrif Her Sgiliau** i gynnwys dulliau addysgu ac asesu a fydd yn ennyn brwdfrydedd dysgwyr, yn ymgysylltu â hwy ac yn eu cymell yn yr ystafell ddosbarth, y gweithle a'r gymuned ehangach. Lluniwyd y cymhwyster yn seiliedig ar y cysyniad o ddull dysgu trwy **'gynllunio, gwneud ac adolygu'** lle caiff y dysgwyr eu cyflwyno i gyd-destun ar gyfer dysgu, lle byddant yn cynllunio gweithgareddau, yn ymgymryd â gweithgareddau ac yn adolygu canlyniadau a'r hyn a ddysgir.

Gellir ymgymryd â Bagloriaeth Cymru drwy gyfrwng y Gymraeg, Saesneg neu'n ddwyieithog.

Bydd **pob myfyriwr** yn astudio Bagloriaeth Cymru.

Y GYMRAEG

Cymhwyster TGAU gorfodol: C - Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg
Crynodeb o gynnwys y Pwnc:

BLWYDDYN 12 – UWCH GYFRANNOL

Uned 1: (15%) Y Ffilm a'r Ddrama a Llafaredd. Arholiad llafar o tuag awr i bob grŵp.
Caiff yr ymgeiswyr eu harholi mewn grwpiau o dri/dair ar y canlynol:-

- Trafod Ffilm;
- Trafod Drama.

Uned 2: (10 %) Asesiad Diarholiad

Caiff yr ymgeiswyr eu hasesu ar ddwy dasg:-

- (1) Ysgrifennu darn estynedig ar un o'r ffurfiau a nodir.
- (2) Traethawd neu araith ysgrifenedig, addas i'w thraddodi yn cyflwyno barn neu safbwynt.

Uned 3: (15 %) Defnyddio Iaith a Barddoniaeth. Arholiad Ysgrifenedig – 2 awr.

Adran A – Defnyddio iaith – Cwestiwn cyfansawdd yn cynnwys gwahanol fathau o ymarferion iaith.

Adran B - Barddoniaeth yr Ugeinfed Ganrif a'r Unfed Ganrif ar Hugain – Cwestiwn traethawd.

BLWYDDYN 13 – SAFON UWCH

Uned 4: (20 %) Y Nofel a Llafaredd. Arholiad llafar o tuag awr.

Caiff yr ymgeiswyr eu harholi mewn grwpiau o dri/dair ar y canlynol :-

- Trafod Nofel a gwneud cysylltiadau â thestunau perthnasol eraill
- Asesiad Synoptig.

Uned 5: (20%) Rhyddiaith yr Oesoedd Canol, Yr Hengerdd a'r Cywyddau. Arholiad Ysgrifenedig o ddwy awr.

Bydd y cwestiynau wedi'u strwythuro ar y testunau gosod.

Adran A: Rhyddiaith yr Oesoedd Canol

Adran B: Yr Hengerdd a'r Cywyddau

Asesiad Synoptig.

Uned 6: (20 %) Gwerthfawrogi Llenyddiaeth a'r Gymraeg mewn Cyd-destun. Arholiad Ysgrifenedig o ddwy awr.

Adran A: Gwerthfawrogi rhyddiaith neu farddoniaeth ar ffurf traethawd.

Adran B: Ysgrifennu darn ar ffurf benodol gan ddangos ymwybyddiaeth o'r cywair a'r gynulleidfa sy'n briodol i'r dasg.

Asesiad Synoptig.

ASESIADAU ALLANOL

BLWYDDYN 12

Uned 1	Uned 2	Uned 3
Mawrth - Mai	Yr Haf	Yr Haf

BLWYDDYN 13

Uned 4	Uned 5	Uned 6
Mawrth - Mai	Yr Haf	Yr Haf

Cyfleoedd gyrfa ar ôl astudio'r pwnc:

Awdur / Awdures

Cynghorydd Gyrfa

Cysylltiadau Cyhoeddus

Swyddog Gwybodaeth

Golygydd Cylchgrawn

Seicolegydd

Athro / Athrawes

Ysgrifennydd / Ysgrifenyddes

Cyflwynydd

Therapydd Lleferydd

Cyfieithydd

ENGLISH

Compulsory GCSE Qualification: C –English Language and Literature

Summary of the subject content:

This course has 5 units: 2 AS units and 3 A2 units. Weightings noted below are for the full A level qualification.

AS (2 Units)

Unit 1: 120 marks (20% of qualification) Written examination (2 hours)

Comparative analysis and Creative Writing

- **Section A: Comparative analysis of poetry and unseen text:** one question requiring a comparative analysis of one of the twenty poems studied in the *WJEC 'English Language and Literature Pre-1914 Poetry Anthology'* and an unseen text from a choice of two, one of which will be a spoken text.
- **Section B: Creative writing and commentary:** one question presented in three parts comprising two writing tasks, one of which will require a text written to be spoken, and a commentary.

Unit 2: 120 marks (20% of qualification) Written examination (2 hours)

Drama and Non-Literary text Study

- **Section A: Post-1900 drama:** one two-part question based on Tennessee Williams' 'A Streetcar Named Desire'.
- **Section B: Non-literary text study:** one question based on Minninnick's 'Watching the Fire Eater'.

A Level (the above plus a further 3 units)

Unit 3: 120 marks (20% of qualification) Written examination (2 hours)

Shakespeare: 'King Lear'

- **Section A: Shakespeare extract:** one extract-based question on 'King Lear'.
- **Section B: Shakespeare essay:** one essay question on 'King Lear'.

Unit 4: 120 marks (20% of qualification) Written examination (2 hours)

Unseen texts and Prose Study

- **Section A: Unseen texts:** one question requiring comparative analysis of three unseen texts, one of which will be spoken language.
- **Section B: Prose study:** one question based on Margaret Atwood's 'The Handmaid's Tale.'

Unit 5: 120 marks (20% of qualification) Non-examination assessment (2500-3500 words

Critical and Creative Genre Study): student choice of genre

- **Section A: Genre study:** a critical, sustained study of a prose genre, such as Gothic, Travel, Journalism, War and Conflict, Science Fiction, Adventure or Dystopia.
- **Section B: Related creative writing:** one original writing assignment linked to the genre studied for Section A.

This is a unitised specification which allows for an element of staged assessment.

Assessment opportunities will be available in the summer of each year.

Career opportunities after studying the subject

English is a strong A Level for any career as it fully develops communication skills. These are just some possible career choices:

Teaching, Journalism, The Law, Writing, Speech Therapy, Translating, Social Worker, Presenting, Author, Solicitor, Secretarial work, Information Officer, Careers Advisor.

MATHEMATEG

Cyfrwng: Dysgir y pwnc yn ddwyieithog o fewn yr un dosbarth

Cymhwyster TGAU gorfodol: B – Mathemateg

Crynodeb o gynnwys y Pwnc:

BLWYDDYN 12 – UWCH GYFRANNOL

Uned 1: (25% o'r cymhwyster llawn) Mathemateg Bur [120 marc]

Uned 2: (15% o'r cymhwyster llawn) Mathemateg Gynhwysol [75 marc]

Adran A: Ystadegaeth [40 marc]

Adran B: Mecaneg [35 marc]

BLWYDDYN 13 – SAFON UWCH

Uned 3: (35% o'r cymhwyster llawn) Mathemateg Bur [120 marc]

Uned 4: (25% o'r cymhwyster llawn) Mathemateg Gynhwysol [80 marc]

Adran A: Ystadegaeth [40 marc]

Adran B: Hafaliadau Differol a Mecaneg [40 marc]

Mae unedau 1 a 3 yn waith Mathemateg Bur ar drigonometreg, graffiau, llawer o algebra a chysyniadau mathemategol eraill sydd yn sylfaen ar gyfer mathemateg bellach, gwyddoniaeth, ystadegaeth, mecaneg a nifer o feysydd eraill.

Mae unedau 2 a 4 wedi ei rhannu'n ddwy adran sef Ystadegaeth a Mecaneg.

Mae'r adran Ystadegaeth yn gofyn dealltwriaeth o waith tebygolrwydd ac ystadegol drwy samplu a phrofi rhagdybiaethau ystadegol ynghyd a dehongli data.

Mae'r adran Mecaneg wedi ei selio ar waith mudiant cinematreg ynghyd a grymoedd a deddfau Newton

Gwaith Cwrs

Nid oes Gwaith Cwrs

Aseidiadau Allanol

BLWYDDYN 12

Uned 1	Uned 2
Yr Haf (2 awr 30 mun)	Yr Haf (1 awr 45 mun)

BLWYDDYN 13

Uned 3	Uned 4
Yr Haf (2 awr 30 mun)	Yr Haf (1 awr 45 mun)

Cyfleoedd gyrfa ar ôl astudio'r pwnc:

Mae astudio Mathemateg yn y chweched yn help i feithrin meddwl yn rhesymegol ac yn agor drysau i nifer fawr o feysydd a gyrfaoedd gwahanol megis cyfrifydd, rheolwr awyrennau, rhaglennydd cyfrifiadurol, peirianeg, arbenigwr ariannol, bancio, ymchwilyr meddygol, meteorolegydd, peilot, athro, technoleg gwybodaeth, marchnata, astudiaethau busnes, cynllunio, rheolaeth, gwaith gydag yswiriant a nifer fawr o feysydd eraill.

BIOLEG

Cyfrwng: Dwyieithog
Cymhwyster TGAU gorfodol: A/B - Bioleg
Crynodeb o gynnwys y Pwnc:

BLWYDDYN 12 – UWCH GYFRANNOL

Uned 1:
Biocemeg Sylfaenol a Threfniadaeth Celloedd
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster

Uned 2:
Bioamrywiaeth a Ffisioleg Systemau'r Corff
Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud
20% o'r cymhwyster

BLWYDDYN 13 – SAFON UWCH

Uned 3:
Egni, Homeostasis a'r Amgylchedd
Arholiad ysgrifenedig: 2 awr
25% o'r cymhwyster

Uned 4:
Amrywiad, Etifeddiad ac Opsiynau
Arholiad ysgrifenedig 2 awr
25% o'r cymhwyster

Uned 5:
Arholiad ymarferol
10% o'r cymhwyster

Asesiadau Allanol

BLWYDDYN 12

Uned 1	Uned 2
Yr Haf	Yr Haf

BLWYDDYN 13

Uned 3	Uned 4	Uned 5
Yr Haf	Yr Haf	Cwblhau cyn mis Mai

Cyfleoedd gyrfa ar ôl astudio'r pwnc:

Swŷolegydd, Milfeddyg, Fferyllydd, Deintydd, Biocemegydd, Patholegydd, Meddyg (Meddyg teulu), Llawfeddyg, Dietegydd, Optegydd, Bydwraig, Therapydd Galwedigaethol, Ffisiotherapydd, Seicolegydd, Radiograffydd, Athro, Nyrs Milfeddygol, Biotechnolegydd, Microbiologydd, Gwyddonydd Morol, Glanweithydd Deintyddol, Ceiropractydd, Garddwriaethydd, Gwyddonydd Fforensig, Ciropodydd, Ffysiolegydd, Gwyddonydd Geneteg Ddynol, Cynghorwr Geneteg, Botanegydd, Patholegydd Planhigion, Technegydd Bwyd, Gwyddonydd Meithrin Celloedd a nifer mwy o swyddi

CEMEG

Cyfrwng: Dwyieithog

Cymhwyster TGAU gorfodol: A/B – Cemeg

Crynodeb o gynnwys y Pwnc:

BLWYDDYN 12 – UWCH GYFRANNOL

Uned 1: Iaith Cemeg, Adeiledd Mater ac Adweithiau Syml

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud

20% o'r cymhwyster

Uned 2: Egni, Cyfradd a Chemeg Cyfansoddion Carbon

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud

20% o'r cymhwyster

BLWYDDYN 13 – SAFON UWCH

Uned 3: Cemeg Ffisegol ac Anorganig

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud

25% o'r cymhwyster

Uned 4: Cemeg Organig a Dadansoddi

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 45 munud

25% o'r cymhwyster

Uned 5: Arholiad ymarferol

10% o'r cymhwyster

Asesiadau Allanol

BLWYDDYN 12

Uned 1	Uned 2
Yr Haf	Yr Haf

BLWYDDYN 13

Uned 3	Uned 4	Uned 5
Yr Haf	Yr Haf	Cwblhau cyn mis Mai

Cyfleoedd gyrfu ar ôl astudio'r pwnc:

Meddygaeth, Milfeddygaeth, Deintyddiaeth, Ffarmacoleg, Biocemeg, Cemeg Diwydiannol, Peirianwaith Cemegol a nifer mwy o swyddi.

FFISEG

Cyfrwng: Dwyieithog

Lleoliad : Ysgol Tryfan

Cymhwyster TGAU gorfodol: A/B – Ffiseg, B - Maths

Crynodeb o gynnwys y Pwnc:

BLWYDDYN 12 – UWCH GYFRANNOL

Uned 1: Mudiant, Egni a Mater

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud

20% o'r cymhwyster

Uned 2: Trydan a Golau

Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud

20% o'r cymhwyster

BLWYDDYN 13 – SAFON UWCH

Uned 3: Osgiliadau a Niwclysau

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr 15 munud

25% o'r cymhwyster

Uned 4: Meysydd ac Opsiynau

Arholiad ysgrifenedig: 2 awr

25% o'r cymhwyster

Uned 5: Arholiad ymarferol

10% o'r cymhwyster

Asesiadau Allanol

BLWYDDYN 12

Uned 1	Uned 2
Yr Haf	Yr Haf

BLWYDDYN 13

Uned 3	Uned 4	Uned 5
Yr Haf	Yr Haf	Yr Haf

Cyfleoedd gyrfa ar ôl astudio'r pwnc:

Peirianeg Awyrennau, Rheolwr Trafnidiaeth Aer, Seryddiaeth, Hinsoddeg, Cyfrifiadura, Peirianeg Trydanol, Gwyddonydd Fforensig, Peirianeg Mecanyddol, Ffiseg Meddygol, Meteorolegydd, Gwyddonydd Niwclear, Radiograffydd, Gofod a Synhwyro o bell, Athro

ASTUDIAETHAU CREFYDDOL

Cyfrwng: Dwyieithog

Cymhwyster TGAU gorfodol: Astudiaethau Crefyddol yn fanteisiol ond nid yw'n orfodol.

Lleoliad: Ysgol Brynrefail

Crynodeb o gynnwys y Pwnc:

BLWYDDYN 12 – UWCH GYFRANNOL

Uned 1 a 2: Unrhyw **Ddau** o'r modiwlau isod (yn ddibynnol ar niferoedd a diddordebau).

Naill ai: Cyflwyniad i Athroniaeth Crefydd
neu Cyflwyniad i Grefydd a Moeseg
neu Cyflwyniad i Grefydd yn y Gymdeithas Gyfoes
neu Cyflwyniad i Iddewiaeth
neu Cyflwyniad i Fwdhaeth

BLWYDDYN 13 – SAFON UWCH

Uned 3 a 4: DWY uned

Un o'r modiwlau canlynol (yn ddibynnol ar yr unedau a astudiwyd yn UG)

Naill ai: Astudiaeth mewn Athroniaeth Crefydd
neu Astudiaeth mewn Crefydd a Moeseg
neu Astudiaeth mewn Crefydd yn y Gymdeithas Gyfoes
neu Astudiaeth mewn Iddewiaeth

YNGHYD â'r modiwl synoptig gorfodol

Bywyd, Marwolaeth a Bywyd ar ôl Marwolaeth.

Asesiadau Allanol

BLWYDDYN 12

Uned 1	Uned 2
Yr Haf	Yr Haf

BLWYDDYN 13

Uned 3	Uned 4
Yr Haf	Yr Haf

Cyfleoedd gyrfu ar ôl astudio'r pwnc:

- Mae'r pwnc yn cael ei dderbyn fel pwnc academiaidd gan bob prifysgol ar gyfer mynediad.
- Cyfreithiwr
- Gweithiwr Cymdeithasol
- Meddygaeth

DAEARYDDIAETH

Cyfrwng: Dwyieithog

Cymhwyster TGAU gorfodol: Daearyddiaeth TGAU yn fanteisiol ond NID yw'n orfodol.

Crynodeb o gynnwys y Pwnc:

BLWYDDYN 12 – UWCH GYFRANNOL

Uned 1: Tirweddau sy'n Newid (Arholiad ysgrifenedig: 2 awr, 24% o'r cymhwyster)

- Adran A - Tirweddau sy'n Newid – Arfordir
- Adran B - Peryglon Tectonig

Uned 2: Lleoedd sy'n Newid (Arholiad ysgrifenedig: 1 awr 30 munud, 16% o'r cymhwyster)

- Adran A - Lleoedd sy'n Newid
- Adran B - Ymchwiliad Gwaith Maes - Daearyddiaeth Ffisegol a Dynol

BLWYDDYN 13 – SAFON UWCH

Uned 3: Systemau Byd-eang a Rheolaeth Fyd-eang (Arholiad ysgrifenedig: 2 awr, 24% o'r cymhwyster)

- Adran A - Systemau Byd-eang - Cylchred Dŵr a Charbon
- Adran B - Rheolaeth Fyd-eang: Newid a Heriau
- Adran C - Heriau'r 21ain Ganrif

Uned 4: Themâu Cyfoes mewn Daearyddiaeth (Arholiad ysgrifenedig: 2 awr, 16% o'r cymhwyster)

- Adran A - Peryglon tectonig
- Adran B - Themâu cyfoes mewn Daearyddiaeth

Uned 5: Ymchwiliad annibynnol - (Asesiad heb arholiad, 20% o'r cymhwyster)

Asesiadau Allanol:

Blwyddyn	Uned 1	Uned 2
12	Yr Haf	Yr Haf

Blwyddyn	Uned 3	Uned 4	Uned 5
13	Yr Haf	Yr Haf	Asesiad Mewnol Tymor yr Hydref

Cyfleoedd gyrfa ar ôl astudio'r pwnc:

Mae astudio Daearyddiaeth yn meithrin nifer o sgiliau trosglwyddadwy sy'n gallu arwain at yrfaoedd mewn sawl maes. Gyrfaoedd posib yw: Hamddena a Thwristiaeth, Adran gynllunio, Datblygwr Trefol Rheolwr Trafnidiaeth, Cyfoeth Naturiol Cymru, Athro / Darlithydd, Parciau Cenedlaethol, Hydrolegwyr, Meteorolegwyr, Gwaith Cadwriaethol, Datblygwr Cymunedol, Cartograffydd neu Arbenigwr GIS, Rheolwr ansawdd Dŵr/Aer, Demograffydd - cyfrifiad, Llywodraeth neu Gyngor Lleol.

HANES

Cyfrwng: Dwyieithog

Cymhwyster TGAU gorfodol: Hanes yn fanteisiol ond nid yw'n orfodol.

Crynodeb o gynnwys y Pwnc:

Astudiaeth o Gyfnod: Cymru a Lloegr, o.1485-1603

Astudiaeth Manwl: Yr Almaen, o.1918-1945

Astudiaeth Eang: Canrif yr Americanwyr, tua 1890-1990

BLWYDDYN 12 – UWCH GYFRANNOL

Uned 1: (20 %)

Llywodraeth, Gwrthryfel a Chymdeithas yng Nghymru a Lloegr, o.1485-1603

Uned 2: (20%)

Yr Almaen: Democratiaeth i Unbennaeth, o.1918-1945

Rhan 1: Weimar a'i Sialensiau, o.1918-1933

BLWYDDYN 13 – SAFON UWCH

Uned 3: (20 %)

Canrif yr Americanwyr, tua 1890-1990

Uned 4: (20%)

Yr Almaen: Democratiaeth i Unbennaeth, o.1918-1945

Rhan 2: Yr Almaen Natsiaidd, o.1933-1945

Uned 5: (20%)

Dysgwyr yn ysgrifennu traethawd 3,000-4,000 o eiriau: ymchwilio i fater o ddadl hanesyddol trwy astudio gwahanol ddadansoddiadau hanesyddol. Bydd y pwnc yn seiliedig ar astudio blaenorol.

Asesiadau Allanol

BLWYDDYN 12

Uned 1	Uned 2
Yr Haf	Yr Haf

BLWYDDYN 13

Uned 3	Uned 4	Uned 5
Yr Haf	Yr Haf	Asesiad Mewnol Tymor yr Hydref

Cyfleoedd gyrfa ar ôl astudio'r pwnc:

Mae astudio hanes yn meithrin nifer o sgiliau trosglwyddadwy sy'n gallu arwain at yrfaoedd mewn sawl maes. Gyrfaoedd posib yw: Gwasanaethau Cyllidol, Addysg, Y Gyfraith, Llyfrgellyddiaeth, Archifau, Amgueddfeydd, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Gwleidyddiaeth, Archaeoleg, Cyfryngau, Newyddiaduraeth, Twristiaeth, Rheolaeth, Ymchwil, Gwasanaeth Sifil, Gwasanaeth Cudd-wybodaeth, Marchnata, Achyddiaeth, Anthropoleg, Gwerthu Hen Greiriau, Arwerthu, Pensaer, Cadwraeth, Troseddeg, Economeg, Cysylltiadau Cyhoeddus, Ymchwil Marchnata, Llywodraeth Leol, Lluoedd Arfog, Gwasanaeth Diplomyddol.

CELF A DYLUNIO

Cyfrwng: Dwyieithog.

Cymhwyster TGAU gorfodol: C -Celf

Crynodeb o gynnwys y Pwnc:

BLWYDDYN 12 – UWCH GYFRANNOL

1 Uned : Ymholiad Creadigol Personol

Asesiad diarholiad 40%

Mae'r Ymholiad Personol yn cynnwys project/portffolio ymchwiliol, estynedig a chanlyniadau yn seiliedig ar themâu a deunydd pwnc sydd yn bersonol ac yn ystyrlon i'r dysgwr. Rhaid i'r Ymholiad gyfuno gwaith beirniadol, ymarferol a damcaniaethol.

BLWYDDYN 13 – SAFON UWCH

Uned 2: Ymchwiliad Personol

Asesiad diarholiad 36% o'r cymhwyster

Yn cynnwys **dwy** ran gyfansoddol integredig:

1. Prif broject/portffolio ymchwiliol beirniadol, ymarferol a damcaniaethol a chanlyniadau yn seiliedig ar themâu a deunydd pwnc sydd ag arwyddocâd personol.
2. Elfen ysgrifennu estynedig o leiafswm o 1000 gair. Gallai cynnwys delweddau a thestunau, ac mae'n rhaid iddo ymwneud yn amlwg a gwaith ymarferol a damcaniaethol gan ddefnyddio geirfa weithiol a themâu arbenigol priodol.

Uned 3: Aseiniad Arholiad wedi'i osod yn allanol

Asesiad diarholiad 24% o'r cymhwyster.

Yn cynnwys dwy ran:

Rhan 1: Cyfnod gwaith paratoi

- Bydd y dysgwr yn dewis un testun o gyfres o ysgogiadau a rhyddheir o 1 Chwefror.
- Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio fel man cychwyn er mwyn datblygu ymateb personol.
- Dylai'r ymatebion fod ar ffurf gwaith paratoi/astudiaethau cefnogol sy'n feirniadol, ymarferol a damcaniaethol. Defnyddir y gwaith hwn wedyn wrth wireddu'r syniadau yn yr astudiaeth ddwys a manwl 15awr.

Rhan 2: Cyfnod o waith dwys a manwl 15awr

Rhaid cwblhau'r cyfnod o waith dwys a manwl dan amodau orchwyliaeth

Asesiadau Allanol

BLWYDDYN 12

Uned 1	
Yr Haf	

BLWYDDYN 13

Uned 2	Uned 3
Yr Haf	Yr Haf

Cyfleoedd gyrfa ar ôl astudio'r pwnc:

Peintio a Cherflunio Celf Gain, Ffilm a Theledu, Gwasanaeth Oriellau ac Amgueddfeydd, Dylunio Diwydiannol, Dylunio Mewnol, Dylunio Graffig, Ffasiwn a Thecstilau, Animeiddio, Addysg, Ffotograffiaeth, Hysbysebu, Pensaerniaeth.

FFOTOGRAFFIAETH

Cyfrwng: Dwyieithog.

Cymhwyster TGAU gorfodol: C -Celf

Crynodeb o gynnwys y Pwnc:

BLWYDDYN 12 – UWCH GYFRANNOL

1 Uned : Ymholiad Creadigol Personol

Asesiad diarholiad 40%

Mae'r Ymholiad Personol yn cynnwys project/portffolio ymchwiliol, estynedig a chanlyniadau yn seiliedig ar themâu a deunydd pwnc sydd yn bersonol ac yn ystyrlon i'r dysgwr. Rhaid i'r Ymholiad gyfuno gwaith beirniadol, ymarferol a damcaniaethol.

BLWYDDYN 13 – SAFON UWCH

Uned 2: Ymchwiliad Personol

Asesiad diarholiad 36% o'r cymhwyster

Yn cynnwys **dwy** ran gyfansoddol integredig:

Prif broject/portffolio ymchwiliol beirniadol, ymarferol a damcaniaethol a chanlyniadau yn seiliedig ar themâu a deunydd pwnc sydd ag arwyddocâd personol.

Elfen ysgrifennu estynedig o leiafswm o 1000 gair. Gallai cynnwys delweddau a thestunau, ac mae'n rhaid iddo ymwneud yn amlwg a gwaith ymarferol a damcaniaethol gan ddefnyddio geirfa weithiol a themâu arbenigol priodol.

Uned 3: Aseiniad Arholiad wedi'i osod yn allanol

Asesiad diarholiad 24% o'r cymhwyster.

Yn cynnwys dwy ran:

Rhan 1: Cyfnod gwaith paratoi

- Bydd y dysgwr yn dewis un testun o gyfres o ysgogiadau a rhyddheir o 1 Chwefror.
- Bydd hyn yn cael ei ddefnyddio fel man cychwyn er mwyn datblygu ymateb personol.
- Dylai'r ymatebion fod ar ffurf gwaith paratoi/astudiaethau cefnogol sy'n feirniadol, ymarferol a damcaniaethol. Defnyddir y gwaith hwn wedyn wrth wireddu'r syniadau yn yr astudiaeth ddwys a manwl 15awr.

Rhan 2: Cyfnod o waith dwys a manwl 15awr

Rhaid cwblhau'r cyfnod o waith dwys a manwl dan amodau oruchwyliaeth

Asesiadau Allanol

BLWYDDYN 12

Uned 1	
Yr Haf	

BLWYDDYN 13

Uned 2	Uned 3
Yr Haf	Yr Haf

Cyfleoedd gyrfa ar ôl astudio'r pwnc:

Ffotograffydd, Ffilm a Theledu, Gwasanaeth Oriolau ac Amgueddfeydd, Dylunio Diwydiannol, Dylunio Mewnol, Dylunio Graffig, Ffasiwn a Thecstilïau, Animeiddio, Addysg, Hysbysebu, Pensaernïaeth.

- 12 ac 18 munud

DYLUNIO CYNNYRCH

Cyfrwng: Dwyieithog

Cymhwyster TGAU gorfodol: B - Dylunio Cynnyrch

Crynodeb o gynnwys y Pwnc:

Oherwydd natur y pwnc, mae sgiliau cadarn mewn rhifedd / mathemateg / llythrennedd / Saesneg a TGCh yn hanfodol ar gyfer symud ymlaen i'r cymhwyster Lefel 3 hwn.

BLWYDDYN 12 – UWCH GYFRANNOL

Uned 1 (20% o'r cymhwyster): Papur ysgrifenedig 1 (2 awr)
Mae'r arholiad yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau ysgrifennu strwythuredig ac estynedig sy'n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o:
<ul style="list-style-type: none">• egwyddorion technegol• egwyddorion dylunio a gwneud ynghyd â'u gallu i: <ul style="list-style-type: none">• ddadansoddi a gwerthuso penderfyniadau dylunio a materion ehangach mewn dylunio a thechnoleg.

Uned 2: (20% o'r cymhwyster) - Tasg Dylunio a Gwneud (40 Awr Gwaith Cwrs)
Tasg dylunio a gwneud, yn seiliedig ar friff a ddatblygwyd gan yr ymgeisydd, yn asesu gallu'r ymgeisydd i:
<ul style="list-style-type: none">• adnabod, ymchwilio ac amlinellu posibiliadau dylunio• dylunio a gwneud prototeipiau• dadansoddi a gwerthuso penderfyniadau dylunio a• materion ehangach mewn dylunio a thechnoleg.

BLWYDDYN 13 – SAFON UWCH

Uned 3: (30% o'r cymhwyster) - Papur ysgrifenedig 1 (2 ½ awr)
Mae'r arholiad yn cynnwys cymysgedd o gwestiynau ysgrifennu strwythuredig ac estynedig sy'n asesu gwybodaeth a dealltwriaeth dysgwyr o:
<ul style="list-style-type: none">• egwyddorion technegol• egwyddorion dylunio a gwneud ynghyd â'u gallu i: <ul style="list-style-type: none">• ddadansoddi a gwerthuso penderfyniadau dylunio a materion ehangach mewn dylunio a thechnoleg.

Uned 4: (30% o'r cymhwyster) - Tasgau Dylunio a Gwneud (60 awr Gwaith Cwrs)
Project dylunio a gwneud dwys a manwl, yn seiliedig ar friff a ddatblygwyd gan yr ymgeisydd, yn asesu gallu'r ymgeisydd i:
<ul style="list-style-type: none">• adnabod, ymchwilio ac amlinellu posibiliadau dylunio• dylunio a gwneud prototeipiau• dadansoddi a gwerthuso penderfyniadau dylunio a• materion ehangach mewn dylunio a thechnoleg.

Cyfleoedd gyrfa ar ôl astudio'r pwnc:
Pensaerniaeth, Dylunio Graffegol, Peiriannydd Sifil, Dylunydd Cynnyrch, Gweithgynhyrchu, Dylunydd Wê, Addysg/Dysgu, Dylunydd Ffasiwn.

ADDYSG GORFFOROL

Cyfrwng: Dwyieithog

Cymhwyster TGAU gorfodol: C – Addysg Gorfforol

Lleoliad: Ysgol Dyffryn Ogwen

Crynodeb o gynnwys y Pwnc:

BLWYDDYN 12 – UWCH GYFRANNOL

Uned 1: (50%)

PE1 – Datblygu Perfformiad Mewn Addysg Gorfforol.

Asesiad mewnol - Perfformiad Ymarferol (30% UG)

Proffil Perfformiad Personol (10%UG)

Hyfforddi / Dyfarnu (10% UG)

Uned 2: (50%)

PE2 – Ffordd o Fyw Actif ac Addysg Gorfforol

Arholiad Allanol - Cwestiynau strwythuredig gorfodol ac UN traethawd estynedig.

BLWYDDYN 13 – SAFON UWCH

Uned 3: (25%)

Mireinio Perfformiad Mewn Addysg gorfforol

Asesiad Mewnol – Perfformiad Ymarferol (17.5%)

Gwaith Ymchwil (7.5%)

Uned 4: (25 %)

Perfformiad, Darpariaeth a Chyfranogiad Mewn Addysg Gorfforol

Asesiad Allanol - Adran A: Cwestiynau strwythuredig gorfodol (15%)

Adran B: UN cwestiwn dewisol (allan o ddau) sydd angen ysgrifennu'n estynedig (10%)

Asesiadau Allanol

BLWYDDYN 12

Uned 1	Uned 2
Yr Haf	Yr Haf

BLWYDDYN 13

Uned 3	Uned 4
Yr Haf	Yr Haf

Cyfleoedd gyrfa ar ôl astudio'r pwnc:

Hyfforddwr Ffitrwydd, Ffisiotherapydd, Swyddog Hamdden, Hyfforddwr Chwaraeon, Gwyddonydd Chwaraeon, Seicolegydd Chwaraeon, Athletwr, Athro/Athrawes-Cynradd, Athro / Athrawes - Uwchradd, Swyddog Datblygu Chwaraeon, Maethyddydd - Dietegydd, Gwasanaethau Iechyd, Rheolwr Gwerthiant Nwyddau Chwaraeon, Marchnata Chwaraeon, Cynrychiolydd Chwaraeon, Trefnydd Digwyddiadau Chwaraeon, Y Fyddin, Paramedig

GWASANAETHAU CYHOEDDUS

Cyfrwng: Dwyieithog

Lleoliad: Ysgol Dyffryn Nantlle

Crynodeb o gynnwys y Pwnc:

Mae'r BTEC Cenedlaethol mewn Gwasanaethau Cyhoeddus yn addas i unrhyw un sydd â diddordeb mewn swydd ym maes gwasanaethau cyhoeddus, gan gynnwys swyddi gweithredol a swyddi cefnogol mewn swyddfeydd.

Y cyflogwr mwyaf ym Mhrydain yw'r sector cyhoeddus, gan gynnwys llywodraeth ganolig a lleol, y lluoedd arfog, y gwasanaethau argyfwng, sefydliadau addysgol a nifer o gyrff cyhoeddus.

Beth fyddaf yn ei dysgu?

Mae'r cymhwyster yn canolbwyntio ar sgiliau hanfodol sydd eu hangen er mwyn deall y sector gwasanaethau cyhoeddus. Mae'r cwrs wedi ei gynllunio i roi i ddysgwyr y wybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau sydd eu hangen ar gyfer gyrfa mewn Gwasanaeth Cyhoeddus. Mae 6 uned i ddilyn:

- Llywodraeth, Polisiâu a'r Gwasanaethau Cyhoeddus
- Arweinyddiaeth yn y Gwasanaethau Cyhoeddus
- Dinasyddiaeth a'r Gwasanaethau Cyhoeddus
- Trosedd a'i effaith ar gymdeithas
- Hyfforddiant a phrofion ffitrwydd ar gyfer y Gwasanaethau Cyhoeddus
- Rhyfel, terfysgaeth a'r Gwasanaethau Cyhoeddus

Sut fyddaf yn cael fy asesu?

Dim arholiadau. Bydd asesiadau parhaus ar gyfer pob uned o waith dros gyfnod o 2 flynedd.

Pwyntiau UCAS

Mae'r BTEC Edexcel Lefel 3 Diploma Atodol mewn Gwasanaethau Cyhoeddus gwerth â 1 Lefel A ar radd A.

Cyfleoedd ar ôl y cwrs

Ar ddiwedd y cwrs yma mae'r cyfle i ddisgyblion ddilyn gradd prifysgol, neu radd sylfaenol mewn disgyblaeth galwedigaethol priodol, BTEC HNC neu HND, neu yn syth i gyflogaeth.

Am wybod mwy?


I ddarganfod mwy am y cwrs, ymwelwch â'r wefan ganlynol:

WWW.EDEXCEL.COM/QUALS/NATIONALS10/PS/PAGES/DEFAULT.ASPX

Cyrsiau Consortiwm Arfon a Môn

Gellir dod o hyd i fanylion am y cyrsiau canlynol yn y Prosbectws 2018-19 Consortiwm Addysg Ôl 16 ar y wefan : <http://www.consortiwmol16.cymru/cyrsiau.aspx>, neu drwy gysylltu yn uniongyrchol gyda'r ysgol/Coleg.

1. CERDD
2. FFRANGEG
3. ALMAENEG
4. TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYFATHREBU
5. OCR CAMBRIDGE TECHNICAL
6. GWYDDONIAETH CYFRIFIADUREG
7. MATHEMATEG BELLACH
8. ELECTRONEG
9. CYMDEITHASEG
10. ASTUDIAETHAU BUSNES
11. SEICOLEG
12. IECHYD A GOFAL CYMDEITHASEG
13. TECHNOLEG CERDD
14. CYFRYNGAU CREADIGOL (TELEDU A FFILM)
15. CYFRYNGAU CREADIGOL (CYNHYRCHU GEMAU)
16. PEIRIANNEG FECANYDDOL
17. PEIRIANNEG SIFIL
18. LLETYGARWCH
19. CHWARAEON BTEC
20. Y GYFRAITH
21. DRAMA



Y CHWECHED DOSBARTH YN GYFFREDINOL

Rydym i gyd yn gobeithio, wedi i chi wneud y penderfyniad a'r dewis, y cewch amser llwyddiannus yn y Chweched Dosbarth yn Ysgol Dyffryn Nantlle. Dyma fanylion am yr hyn sydd wedi'i baratoi ar gyfer, a'r hyn ddisgwyliwn gan fyfyrwyr y Chweched Dosbarth.

Y Ganolfan Ddysgu

Disgwylir i bawb fanteisio ar y cyfle o wneud gwir ddefnydd o'r ganolfan ddysgu, nid yn unig i fenthycu llyfrau ond hefyd i weithio a dysgu ac adolygu'ch gwaith. Dyma'r amser i chwi feistrolu gweithio'n annibynnol a fydd o fantais i chwi drwy gydol eich gyrfa mewn bywyd.

Distawrwydd yw rheol euraid y Ganolfan Ddysgu. Pwysleisir bod yn rhaid bob amser gadw at y rheol hon er mwyn sicrhau chwarae teg i bawb sy'n gweithio yno.

Defnyddir y cyfrifiaduron yn y ganolfan ar gyfer gwaith addysgol yn unig. Caiff disgyblion ddod a chliniaduron personol i'r ysgol os ydynt yn dymuno gwneud hynny. Bydd rhaid arwyddo Cytundeb Defnyddio Dyfeisiadau Personol cyn gwneud hynny.

GYRFAOEDD

Mae croeso i chwi sgwrsio â

Miss Melanie Cooper	– Arweinydd Cyfnod Allweddol 5
Miss Clare McDermott	– Arweinydd Gyrfaoedd yr Ysgol
Miss Emma Moore	–Y Swyddog Gyrfaoedd

CEISIADAU PRIFYSGOL A CHOLEG

Rhaid i chi wneud y ceisiadau hyn yn ystod tymor yr Hydref, yn yr ail flwyddyn, e.e.

15 Hydref	- dyddiad cau ceisiadau Caergrawnt a Rhydychen, ceisiadau am gyrsiau meddygaeth, deintyddiaeth a milfeddygaeth
15 Ionawr	- dyddiad cau prifysgolion i gyd ar ffurflen UCAS

Felly, dylech ddechrau meddwl am eich gyrfa prifysgol a choleg yn ystod tymor haf y flwyddyn gyntaf.

Eto, mae croeso i chi drafod hyn ag Arweinydd y Chweched.

Yn ogystal, bydd amser penodol ar ddiwedd tymor yr haf i baratoi am y broses o wneud ceisiadau.

YSGOLORIAETHAU PRIFYSGOL

Bydd cyfle i rai disgyblion sefyll Ysgoloriaethau Mynediad i Brifysgol o'u dewis mewn rhai pynciau. Disgwylir iddynt gael gradd A fel amcangyfrif yn eu dewis bwnc.

Dylid ymgynghori ag Arweinydd y Chweched cyn gwneud cais am sefyll Ysgoloriaeth. Ni ellir sefyll ond gyda chynghor yr Arweinydd a chaniatâd y Pennaeth. Nid rhywbeth ysgafn, ffwrdd-â-hi yw Ysgoloriaeth, ac ni chaniateir i neb ei thrin felly.

YMGYNGHORI

Bydd Arweinydd y Chweched Dosbarth ar gael yn ei swyddfa ar yr amseroedd canlynol :

Cyn i'r ysgol ddechrau yn y bore
Ar ôl cofrestru
Yn ystod egwyl y bore
Yn ystod yr awr ginio

I gael

- gwybodaeth am gyfleoedd 17+ a 18+
- cyngor ynghylch Addysg Uwch ac Addysg Bellach UCAS a cholegau
- paratoad am gyfweliad

COFRESTRU YN Y CHWECHED DOSBARTH

Mae 2 ddosbarth cofrestru ym mlwyddyn 12.

GWASANAETH BOREOL

Disgwylir i bob aelod o'r chweched dosbarth fynychu'r gwasanaeth heb eithriad a hefyd, i gymryd rhan o dro i dro.

RHEOLAU

Bydd rheolau'r ysgol yn berthnasol i fyfyrwyr y Chweched Dosbarth ond gobeithir mai hunan ddisgyblaeth fydd y nod i chi.

Y gair allweddol yw **PARCH** - parch at bobl a phethau.

1. Rhaid i bob disgybl fod yn bresennol **yn yr ystafell gofrestru** benodol am 8.55. Anelwch felly i fod yno erbyn 8.50.
2. Rhaid i bob disgybl fod yn bresennol a phrydlon ym mhob gwrs.
3. Ni chewch adael adeilad yr ysgol yn ystod y dydd oni bai bod cytundeb wedi ei arwyddo gennych chi, eich rhiant/gwarcheidwad a'r ysgol.

Mae'n hollol deg i chi gael gwybod pe bae chi yn torri'r rheolau uchod (yn cynnwys rheolau cyffredinol) byddwn yn dilyn y drefn isod :

1. Rhybudd
2. Bydd yr ysgol yn eich disgyblu

RHEOLAU MANWL

- 1) Mae'n rhaid i chi gofrestru am 8.55 y bore a 1.30 yn y prynhawn.
- 2) Mae mynychu gwersi'n orfodol a hynny'n brydlon bob amser. Ni chaniateir i chi beidio â mynd i wers heb ganiatâd yr athro/athrawes dan sylw ac Arweinydd y Chweched.
- 3) Dylech gymryd yn ganiataol bob amser bod gwersi'n digwydd fel arfer, er bod amgylchiadau weithiau'n awgrymu'n wahanol. Dylid cofio y gellir cynnal gwrs yn y Chweched Dosbarth ag un myfyriwr yn unig.
- 4) Hawl yr athro/athrawes yn unig yw penderfynu peidio â chynnal gwrs.
- 5) Ni chaniateir apwyntiadau gyda'r meddyg na'r deintydd yn ystod oriau'r ysgol ac eithrio mewn argyfwng.
- 6) Caniateir gwrsi gyrru o fewn oriau'r ysgol ar yr amod nad ydynt yn tarfu o gwbl ar eich gwrsi yn yr ysgol.
- 7) Ni chaniateir gadael tir yr ysgol ac eithrio yn ystod yr awr ginio oni bai bod cytundeb wedi cael ei arwyddo gennych chi, eich rhiant/gwarcheidwad a'r ysgol.
- 8) Dylech hysbysu Arweinydd y Chweched a'r swyddfa cyn gadael yr ysgol pan fyddwch yn wael yn ystod y dydd ac yn awyddus i fynd adref.
- 9) Dylech hysbysu'ch athro/athrawes dosbarth yn syth ar ôl cyrraedd yr ysgol pan fyddwch yn hwyr.
- 10) Mae angen nodyn gan riant i egluro pob cyfnod o absenoldeb.
- 11) Pan na fyddwch yn cydymffurfio â safonau gwisg y Chweched Dosbarth yna gellir eich gyrru adref i newid.
- 12) Argymhellir na ddylid treulio mwy na 4 gwrs yr wythnos yn Ystafell y Chweched.
- 13) Dylech aros yn yr ystafell ddosbarth, y llyfrgell neu'r ystafell gyffredin tan gloch diwedd y dydd.
- 14) Dylech barhau â'ch gwaith yn hunan-ddisgybledig yn ystod absenoldeb eich athro/athrawes.
- 15) Ni chaniateir i chi weithio i gyflogwr yn ystod oriau'r ysgol, gan eich bod mewn addysg lawn-amser.
- 16) Dim ond yng nghwmni rhiant y cewch fynd ar wyliau yn ystod tymor yr ysgol, ar wahân i Flwyddyn 13 a gaiff wneud hynny ar ôl eu harholiadau terfynol.
- 17) Gwaherddir ysmegu'n gyfan gwbl yn yr ysgol.
- 18) Dylai'r Chweched Dosbarth osod safonau i ddisgyblion iau'r ysgol. Dylech wneud hyn trwy gyfrwng eich ymddygiad, eich ymddangosiad, eich ymroddiad a'ch brwdfrydedd.

GWISG YSGOL Y CHWECHED

Esgidiau du (dim trainers)

Trowsus/Sgert du (dim denim, dim cord)

Crys gwyn ffurfiol gyda llawes hir (dim polo)

Siaced 'fleece' ddu gyda logo'r ysgol / Siwmpwr gwddf - V gyda logo'r ysgol

Tei'r Chweched

CALENDR O DDIGWYDDIADAU YN Y CHWECHED

Medi

Cwrs Anwytho – 12
Derbyn enwau'r rhai sy'n ail-sefyll arholiadau TGAU
Cwblhau ffurflenni UCAS – Blwyddyn 13

Hydref

Gweithgaredd y Chweched Dosbarth i'r Gymuned Leol

Tachwedd

Arholiadau TGAU i'r rhai sy'n ail-sefyll
Adolygiad Pwnc a gosod Targedau i bawb ym Mlwyddyn 12
Adolygiad Pwnc a gosod Targedau i bawb ym Mlwyddyn 13
Noson rieni – 12 a 13

Ionawr

Arholiadau Ysgoloriaethau Prifysgol Bangor
Canlyniadau TGAU y rhai a fu'n ail-sefyll
Arholiadau Ffug Bl.12
Dyddiad terfynol derbyn ffurflenni UCAS

Chwefror

Prosesu ffurflenni'r rhai sy'n bwriadu sefyll arholiadau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch
Arholiadau Ysgoloriaethau Prifysgol Aberystwyth

Mai

Arholiadau Uwch Gyfrannol

Mehefin

Arholiadau Uwch Gyfrannol a Safon Uwch

Gorffennaf

Profiad Gwaith

Awst

Canlyniadau TGAU, Uwch Gyfrannol a Safon Uwch